# Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol

## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

# 2025-26



| | |
|---|---|
| **Pennaeth:** | **Matthew H T Evans** |
| **Cadeirydd y Llywodraethwyr:** | **Iona Edwards** |
| **Is-gadeiryddion:** | **Tamsin Ramasut**<br>**Aled Walters** |

*Coron Gwlad ei Mamiaith*

# Croeso
# Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Ein gweledigaeth yw datblygu dinasyddion iach, uchelgeisiol, croesawgar a Chymreig sy'n falch o hanes a diwylliant cyfoethog ein cefndiroedd, ein prifddinas a'n gwlad.  Cefnogwn bob aelod i gyfrannu'n llawen at fwrlwm cymuned yr ysgol, i fwynhau dysgu a dyfalbarhau ac i fod yn garedig. Ein nod yw creu awyrgylch dysgu cynhwysol a chefnogol lle caiff pob unigolyn ei werthfawrogi.

## *Coron Gwlad ei Mamiaith*




*Taith Celf i'r Amgueddfa Ashmolean, Rhydychen*

*Llun Clawr: Seremoni Torri'r dywarchen ar gyfer Canolfan Ethni: Aelodau o Senedd Canolfan Ethni; Mrs Bethan Davies, Garmon ap Michael a'r Cyng Sarah Merry*

**Llythyr cyflwyno gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol**

Annwyl Riant / Warcheidwad,
Braint yw ysgrifennu atoch eleni eto ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf i gyflwyno'r adroddiad hwn. Mae'n cynnwys yr holl weithgareddau a'r profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n dyst i weledigaeth ac ymrwymiad y tîm cyfan o staff yng Nglantaf.

Eleni, croesawodd yr ysgol dim o arolygwyr Estyn am arolwg llawn o'r ysgol a hynny am y tro cyntaf ers 2017. Fel Corff Llywodraethol, rydym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi cael ein hysbrydoli gan y cyfleoedd a'r profiadau cyfoethog sy'n cael eu cynnig yng Nglantaf ac am safon uchel yr addysg sydd i'w chael yma. Ac felly, er bod yr adroddiad a gyhoeddwyd eleni yn sôn am y cyfleoedd, yr arlwy a'r safon arbennig o fewn yr ysgol, nid oedd yn syndod gwirioneddol, oherwydd gwyddom yn dda am gymeriad a safon ein hysgol yma yn y Brifddinas. Wrth dderbyn yr adroddiad terfynol a gwerthfawrogi y gwaith ardderchog sy'n cael ei gyflawni yma, hoffem fel Corff ddiolch o galon i bob un disgybl am ei gyfraniad i fywyd yr ysgol ac i'r tim rhagorol o staff ac arweinwyr sy'n gofalu a chymell cymuned yr ysgol i gyflawni mewn modd mor ardderchog. Llongyfarchiadau i bawb ar adroddiad arolygu Estyn mor ganmoladwy, ac un na welir yn aml!

Mae rhestr cyflawniadau eleni eto yn hir a chyfoethog a diolch i gymuned yr ysgol am eu brwdfrydedd a'u hegni. Mae Sioe Olifer, cyngherddau Nadolig, llwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd yn Ynys Môn, amlygrwydd y Côr Bois, Cyngerdd Cerddorfa'r Clwstwr Cynradd, yr Arddangosfa Gelf ynghyd â'r Nosweithiau Gwobrwyo wedi bod yn achlysuron arbennig iawn lle rydym i gyd wedi teimlo'n falch iawn o ddoniau amrywiol ein pobl ifanc. Ar ben hynny, mae'r rhestr hir o gyflawniadau chwaraeon unwaith eto yn tanlinellu talentau a chymeriad ein disgyblion. Hoffwn hefyd longyfarch myfyrwyr ar ganlyniadau ardderchog TGAU a Safon Uwch yr haf diwethaf. Llongyfarchiadau cynnes a diolch am eich gwaith!

Fel Corff Llywodraethu rydym hefyd yn cael ein calonogi gan y gwaith presennol ar y safle i wella cyfleusterau. Roeddem yn falch o wella adnoddau ar yr iard chwarae drwy ychwanegu dwy gysgodfan newydd, ac edrychwn ymlaen i weld buddsoddiadau ychwanegol eto eleni i wella cyfleusterau arlwyo a uwchraddio ymhellach dai bach yr ysgol. Braf hefyd gweld bod datblygiad adeilad newydd Canolfan Ethni yn dod yn ei flaen ar amser. Rydym yn croesawu'r newidiadau yn ein darpariaeth cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi'n gywir am gymwysterau newydd yng Nghymru. Rhoddodd ein hymweliadau tymor yr hydref â'r ysgol gyfle i ni drafod cynnydd disgyblion gydag athrawon ac roedd hyn yn fewnwelediad gwerthfawr i'r gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm. Pleser arbennig oedd mwynhau sgyrsiau gyda disgyblion, ac maent i'w canmol am eu hegni, eu brwdfrydedd a'u gonestrwydd wrth drafod eu gwaith a'u cymuned yng Nglantaf.

Eleni, buom yn gweithio'n agos gyda Ysgol Bro Edern wrth i ni feithrin gallu arwain dros y ddwy ysgol. Rydym yn falch bod y cydweithio rhwng Mr Matthew Evans, fel Pennaeth Gweithredol, Mr Dyfrig Rees fel Pennaeth Ysgol a Mrs Catrin Arnopp fel Dirprwy wedi ei sefydlu'n gadarn yng Nglantaf a bod momentwm gwelliannau ac arloesedd yn parhau o fewn yr ysgol. Hoffwn ddiolch i'r tri ohonynt, i'r Tim Arwain ac i'r staff cyfan am eu gwaith, eu hymroddiad a'u cyfraniadau estynedig i ymestyn, cynnig a datblygu cyfleoedd addysgol, elusennol, allgyrsiol a diwyllianol i'n plant a'n pobl ifanc. Diolch yn olaf i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barod a brwd i holl waith yr ysgol ac edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chi i gyd yn y blynyddoedd i ddod.

Iona Edwards
Cadeirydd y Corff Llywodraethol



*Cor Bois Glantaf ar lwyfan Britain's Got Talent!*

**Adroddiad diwedd blwyddyn gan y Pennaeth Gweithredol, Matthew Evans.**

Mae'n bleser cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i gymuned Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Rwy'n teimlo'n freintiedig o weithio ochr yn ochr â disgyblion mor dalentog ac aelodau staff ymroddedig o fewn *teulu Glantaf*.



Mr D Rees, Mr M Evans a Mrs C Arnopp

Yn Medi 2026, roedd yn braf dechrau ein gwaith cydweithredol fel ysgol gydag Ysgol Bro Edern er mwyn adeiladu capasiti arweinyddiaeth ymhellach dros y ddwy ysgol. Roedd hyn yn golygu partneriaeth gydweithredol gyda Bro Edern, wrth i mi gamu i rol Pennaeth Gweithredol dros y ddwy ysgol ac i Mr Dyfrig Rees gamu i rol newydd fel Pennaeth Ysgol. Rydym wedi ein cefnogi yn ein gwaith, gan Mrs Catrin Arnopp, fel Dirprwy Bennaeth. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweithio'n hynod glos, i weithio'n strategol ac mewn dull mwy cydweithredol er mwyn sicrhau a gwella ein darpariaeth i blant a phobl ifanc yr ysgol. Wrth lunio'r adroddiad hwn, mae holl waith y flwyddyn yn glir dros ben a hoffwn ddiolch am bob arwydd o gefnogaeth i'n gwaith ac am eich ymrwymiad i sicrhau bod yr ysgol yn parhau ar ei thaith gwelliant.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau staff hynny sydd wedi'u penodi i swyddi eraill neu sydd wedi dewis ymddeol yn ystod y flwyddyn neu ar ddiwedd tymor yr haf. Yn syml ac yn ddiffuant, dymunwn bob hapusrwydd iddynt ar gyfer y dyfodol a diolch yn garedig iddynt am eu gwaith yma yng Nglantaf.

**Perfformiad ysgol Haf 2025: Cyrsiau TGAU a Lefel 2 Galwedigaethol**



Llwyddiant TGAU Haf 2026

Roedd canlyniadau TGAU / Galwedigaethol yn haf 2025 yn ardderchog, gydag 87% o ddisgyblion yn ennill 5 A*-C a 41% yn ennill 5 cymhwyster A*-A; cyflawnodd 75% o ddisgyblion 5 A*-C gan gynnwys Mathemateg a naill ai Saesneg neu Gymraeg a chyflawnodd 99% o ddisgyblion 5 A*-G. Gwelodd ein sgôr 9 wedi'i gapio (sy'n cofnodi cyrhaeddiad disgyblion mewn 9 cwrs gwahanol ac a allai fod yn gofnod tecach o gyrhaeddiad disgyblion) gynnydd o 413 i 415. Mae'r data hwn yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg eraill yng Nghymru ac mae canlyniadau Glantaf yn 2025 yn cyfateb i'r safonau uchel mewn perfformiad cyn y pandemig. Rwy'n falch hefyd o nodi'r canlyniadau o fewn Bagloriaeth Cymru, lle roedd A*-C yn 93%. Mae dadansoddiad a chrynodeb o ddata yr ysgol ar gael ar wefan Fy Ysgol Leol sydd yn ddefnyddiol i edrych ar berfformiad ysgolion dros gyfnod o amser.



Dathlu Bl 13 Haf 2026

**Cyrsiau Galwedigaethol Safon Uwch a Lefel 3**

Roedd Bl13 hefyd yn dathlu graddau haeddiannol gyda nifer o ddisgyblion a berfformiodd yn ardderchog. Roedd y canlyniadau rhagorol a gofnodwyd yn golygu bod 36% o'r holl raddau Safon Uwch yn A* neu A ac o'r graddau a ddyfarnwyd, roedd 60% ohonynt o'r graddau uchaf B > A*. Roedd hyn yn golygu bod pob disgybl ym M13 wedi llwyddo i sicrhau eu dewis cyntaf neu ail ddewis o ran addysg uwch. Roedd yn braf bod cymaint o'n disgyblion (36%), wedi ennill y radd A*/A yng nghymwyster Bagloriaeth Cymru.

**Arolwg Estyn: Chwefror 2026**

Braf oedd croesawu tim arolygaeth Estyn i'r ysgol yn Chwefror eleni, a chael y cyfle i rannu addysgeg, arfer a thaith yr ysgol dros y cyfnod diwethaf. Mae'r Adroddiad Llawn yma ac fel canlyniad i'r ymweliad gwahoddwyd yr ysgol i rannu dwy astudiaeth achos o arfer dda gyda'r corff arolygu.

Pleser arbennig gweld bod Estyn yn nodi fod disgyblion yr ysgol yn arddangos "*uchelgais, annibynniaeth a balchder yn eu Cymreictod*" ac ymhellach fod yn y mwyafrif helaeth o wersi bod addysgu effeithiol a bod "*athrawon yn cynllunio'n ofalus er mwyn adeiladu dealltwriaeth disgyblion a'u paratoi i ymdopi a thasgau sy'n eu herio. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r annibynniaeth ac uchelgais y mae'r disgyblion yn eu harddangos, ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da yn eu dysgu*". Elfen bwysig o'n gwaith yma yng Nglantaf yw darpariaeth Canolfan Ethni (gweler Atodiad C), a braf nodi hefyd bod y gwaith, arweiniad a'r gofal o fewn y Ganolfan yn sicrhau clod yr arolygwyr wrth iddynt nodi bod staff yn sicrhau bod "*profiadau dysgu wedi eu teilwra i anghenion disgyblion .. ac o ganlyniad bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau a'u sgiliau bywyd*".

Elfen arall o bleser oedd y cyfeiriadau at naws gymunedol a gofalgar yr ysgol, a hynny drwy ei hethos deuluol, ei chwricwlwm lles a'r modd mae bwrlwm gweithgaredd yr ysgol yn sicrhau ymglyniad a brwdfrydedd ystod eang o'n disgyblion. Yn sicr ddigon, mae'r adroddiad yn dangos ar ei hyd lwyddiant yr ysgol yn agor drysau, yn dathlu cyflawniad ac yn hybu brwdfrydedd plant a phobl ifanc Glantaf yn eu dysgu eu hunain. Mae'n dyst i gymeriad, dycnwch ac ymroddiad staff i fodelu a chynnig arweinyddiaeth mor gadarnhaol, ac mae'r gweithgaredd addysgol hyn oll drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, yng nghalon ein Prifddinas yn llwyddiant nodedig.

**Ymgysylltiad Cyngor Caerdydd ar ddyfodol addysg Gymraeg**

Yn Nhymor y Gwanwyn 2026, lansiwyd proses ymgysylltiad gan Gyngor Caerdydd ar dwf cynnaliadwy addysg Gymraeg o fewn y ddinas, ac ar ddarpariaeth ar gyfer cohort mwy na'r disgwyl yn Medi 2027. Trafodwyd yr opsiynau i gyd gan y Corff Llywodraethu gan gytuno ar ymateb cytun i'r ymgysylltiad, ac annogwyd rhieni a chymuned yr ysgol i leisio eu barn ynglyn a'r cynnigion. Daeth yn amlwg iawn bod angen buddsoddiad sylweddol i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y ddinas, er mwyn darparu cyfleusterau addas. Rydym yn deall bod y Cabinet yn ystyried yr holl ymatebion yn Nhymor yr Hydref ac edrychwn ymlaen i glywed beth fydd gweledigaeth y Cyngor ynglyn a chamau nesaf i addysg Gymraeg y ddinas, er mwyn ystyried ein hymateb pellach. O ran cohort uwch na'r disgwyl yn Medi 2027, bydd gwasgedd ar leoedd yng Nglantaf, ac rydym mewn trafodaethau dwys gyda'r Cyngor am ddatrysiad buan i'r sefyllfa er mwyn diwallu y galw. Mae'n debygol bydd hyn yn golygu buddsoddiad pellach i safle a chyfleusterau Glantaf.

**Cyfathrebu Rhieni – *Arbor***



Dosbarth Pwll Coch : Dawns Ffarwel Bl 11

Eleni, fel y gwyddoch mae pob ysgol yng Nghaerdydd wedi mudo ein systemau rheoli gwybodaeth i lwyfan cyfathrebu newydd Arbor. Mae hyn yn golygu bod holl systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu yr ysgol bellach drwy Arbor, er bod cyfnod o drosglwyddo systemau o hyd dros y misoedd nesaf. Rydym yn ymwybodol bod rhai rhwystredigaethau wedi bodoli gyda'r llwyfan, *Classcharts*, ac felly rydym am gymryd ein hamser i sicrhau ein bod yn gwella ein dull cyfathrebu drwy lwyfan app. Arbor i rieni. Yn ystod 2026/27 byddwn yn mudo mwy o'n gweithgaredd i lwyfan app Arbor gan gynnwys eich gallu fel rhieni i dracio cynnydd, i dderbyn mwy o wybodaeth am eich plentyn ac i dalu am deithau a chinio ysgol. Rydym wedi sefydlu protocol newydd o hysbysu am ddigwyddiadau drwy gyfrwng ebost uniongyrchiol i rieni er mwyn sicrhau bod negeseuon cywir a phwysig yn eich cyrraedd, yn ogystal a pharhau ein cylchlythyron rheolaidd i son am weithgaredd ac i atgoffa am ddigwyddiadau pwysig sydd ar y gweill.

**Datblygiadau cwricwlaidd a *Chwricwlwm i Gymru***

Fe wnaethom ddiwygio ein dewisiadau cwricwlaidd ar gyfer Medi 2026 eleni, drwy roi ychydig mwy o berchnogaeth i ddisgyblion yn Bl 8 i ddewis am eu cyrsiau wrth baratoi at gyrsiau yn Bl 9. Roedd hwn yn un o argymhellion o'r arolwg ac rydym yn falch o allu ymateb i'r argymhelliad yn gyflym ac

mewn modd pwrpasol. Bydd hwn yn gyfle i ddyfnhau medrau pynciol ac yn galluogi disgyblion i ddewis mwy gwybodus ar gyfer cyrsiau TGAU yn Bl 10 ac 11. Bydd hyn yn golygu bod disgyblion yn elwa o fwy o amser yn eu pynciau opsiwn ac yn cael blas go iawn ar bynciau cyn dewis yn derfynol ar ddiwedd Bl 9.

Fe wnaethom hefyd ymateb i'r cyrsiau newydd sydd yn cael eu datblygu yng Nghymru, gyda cyrsiau newydd TGAU i Fl 10. Mae rhai o'r asesiadau rhain wedi dechrau eisioes ac rydym yn falch o fod wedi paratoi a chydlynu y cyrsiau newydd er mwyn cefnogi disgyblion yn eu dysgu. Bydd mwy o gyrsiau newydd yn dechrau yn Medi 2026 gyda thon olaf y cymwysterau galwedigaethol yn cael eu lansio yn 2028. Gwnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn Ne Cymru (CYDAG) mewn diwrnod HMS a oedd yn canolbwyntio ar rannu arfer da. Ym mis Mawrth, ymunodd staff Glantaf â chydweithwyr o ysgolion eraill mewn hyfforddiant yn rhannu arfer dda mewn pynciau ac wrth baratoi at addysgu y cymwysterau newydd.



*Pencampwyr Cwpan Cymru: Tim Rygbi XV Bl 9*

O fewn y Chweched Dosbarth, bu twf yn y niferoedd sy'n dewis dychwelyd neu ymuno â Glantaf gyda 177 o fyfyrwyr ym ml.12 (169 ym mis Medi 2024). Rydym hefyd yn falch o barhau â'n cynigion partneriaeth drwy BroPlasTaf, sy'n golygu bod ein colofnau opsiwn gyda 36 o gyrsiau gwahanol i fyfyrwyr yn CA5.

Ymwelodd aelodau o'n Corff Llywodraethu ag adrannau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd adran ac i arwain craffu llyfrau a chyfweld disgyblion ar eu profiadau. Mae'r ymweliadau cyswllt hyn yn sicrhau bod y Corff Llywodraethol yn cael eu diweddaru am ddatblygiad proffesiynol staff, yn ogystal â sicrhau bod Penaethiaid Adrannau yn cael cefnogaeth dda yn eu gwaith.

**Dysgu proffesiynol staff**

Nodwedd allweddol o'n gwaith yw meithrin partneriaethau a gweithio'n agos gydag ysgolion a sefydliadau eraill. Gweithiodd Glantaf yn agos gydag Adran Addysg Prifysgol Metropolitan Caerdydd fel Ysgol Hyfforddiant Clinigol, gan groesawu 15 darpar-athro. Mae Mrs Megan Bennett, Pennaeth Cynorthwyol (Addysgu a Dysgu) wedi arwain ein Fforwm Dirprwy Benaethiaid o fewn y clwstwr, gan edrych ar strategaethau addysgu effeithiol ar fedrau darllen.

Mae Glantaf hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, yn CYDAG (Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ledled Cymru) a chyda Gyda'n Gilydd (Consortiwm Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Canol De Cymru).

Gweithiodd Ysgolion Bro Edern, Plasmawr a Glantaf yn agos i gynllunio rhaglen o ymweliadau cymar rhwng adrannau yn ystod 2025-26. Mae'r ymweliadau yma wedi golygu bod arweinwyr adran ar draws y dair ysgol wedi cynnal ymweliad a phob ysgol, yn ymuno a gwersi, yn craffu ar waith ac yn cynnal cyfweliadau gyda disgyblion. Mae'r adborth o'r ymweliadau yma wedi bod yn gyson gadarn gan roi i bob ysgol yn ei dro, syniadaeth a chyfeiriad er mwyn gwella ymhellach. Bydd y gwaith ysgol i ysgol yn parhau yn ystod 2026-27 er mwyn elwa pob adran o fewn yr ysgol.

Fe wnaethom barhau â'n gwaith fel Ysgol Bartner gyda'r Llwybr Hyfforddi Athrawon y Brifysgol Agored, gan gefnogi pump athro drwy'r rhaglen eleni (Saesneg {2}, Cymraeg, Ffiseg a Mathemateg).

Eleni fe wnaethom barhau â'n rhaglen dysgu proffesiynol staff o'r enw *Rhaglen Addysgu Glantaf*. Mae'r rhaglen yn cefnogi chwe athro bob blwyddyn i archwilio strategaethau addysgu a dysgu a galluogi eu prosiectau ymchwil i gael eu rhannu â chydweithwyr. Felly, rydym wedi croesawu ac wedi elwa o 24 o athrawon ar y rhaglen hon dros y bedair blynedd diwethaf. Yn ogystal lansiwyd

rhaglen hyfforddi ar gyfer Arweinwyr Canol, sef *Rhaglen Addysgu Uwch Glantaf*, ar gyfer paratoi arweinwyr ar gyfer uwch-arweinyddiaeth.

**Prosiect Grymuso Merched a ariannwyd gan Taith gydag ysgolion ym Malaysia**
Yn dilyn prosiect (Taith) i Aotearoa yn 2023/24 oedd yn edrych ar amrywiaeth, dwyieithrwydd a brwydro yn erbyn hiliaeth, roeddem yn falch iawn o barhau yn 2024-26, gyda prosiect Taith arall sy'n canolbwyntio ar fodelau arweinyddiaeth benywaidd.

Cafodd grŵp o 28 o ddisgyblion Blwyddyn 9, o gefndiroedd mwyafrif byd-eang neu ddifreintiedig, gymryd rhan mewn prosiect trawsnewidiol a ariennir gan Taith, gan ganolbwyntio ar fodelau rôl benywaidd ac arweinyddiaeth ar draws cyd-destunau diwylliannol amrywiol. Teithiodd y merched i ymweld a dwy ysgol yn Malaysia gan hefyd gyfrannu at gynhadledd addysgol yn Kuala Lumpur. Mae'r daith a'r prosiect cyfan wedi cael effaith sylweddol ar gynnydd academaidd a phersonol y merched, gan feithrin hyder, hunaniaeth a dyheadau newydd. Nod y prosiect arloesol hwn oedd codi dyheadau a grymuso merched trwy ddarparu cyfleoedd addysgol a chyfoethogi i grwpiau o ferched nad ydynt bob amser wedi bod yn weladwy o fewn cymuned yr ysgol. Dan arweiniad Mrs Chantelle Moore, mae'r merched wedi cymryd rhan mewn cyfres o weithdai cyfoethogi ar arweinyddiaeth benywaidd a datblygiad personol, gan arwain gweithdai i ddarpar-athrawon ac i ddisgyblion ar draws ein ysgolion clwstwr.


*Glantaf yn Malaysia: Hydref 2025*

Roedd y daith  i Malaysia am ddeg diwrnod yn yr Hydref, a chydweithio â dwy ysgol yn Kuala Lumpur, yn fodd rhyfeddol o godi dyheadau'r merched ac yn arwydd o ymddiriedaeth a ffydd yn eu galluoedd a'u potensial. Roedd clywed eu cyflwyniadau a'u hargraffiadau ar ol cyfnod o fyfyrio a gwerthuso yn ysbrydoliaeth go iawn, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at groesawu merched Malaysia ar ymweliad a  Glantaf yn Mis Medi 2026.

Yn bwysicach na dim, mae'r daith a'r cyfle wedi bod yn fodd i ysbrydoli staff (a'r merched) i sicrhau dilyniant gweithredol o'r prosiect ar ddiwedd y cyfnod ariannu gan Taith. Mae hyn yn golygu bod grwpiau ymbweru wedi eu sefydlu eto yn Ml8 i archwilio hunaniaeth a chymeriad, gyda grwpiau eraill o ddisgyblion sy'n wynebu heriau cymdeithasol neu ddiwylliannol.  Edrychwn ymlaen i weld y disgyblion yma yn eu tro yn trawsnewid yn arweinwyr ac yn ddylanwad cadarnhaol ymysg eu cyfoedion.

Bydd y gwaith hwn yn bwydo'n uniongyrchol i'r Cynllun Gwella Ysgol, gan gryfhau hunaniaeth Gymreig a hyrwyddo hyder merched mewn arweinyddiaeth.

**Gwaith partneriaeth clwstwr Cynradd**
Parhaodd ein partneriaethau Cynradd yn ystod y flwyddyn gyda nifer o ymweliadau a gweithgareddau gan gynnwys: diwrnodau blasu STEM; Diwrnodau blasu Celfyddydau Perfformio; Sesiynau Hawl i Holi gyda Bl. 6; Gwersi ar-lein Bl. 6 (Ffrangeg) a Bl. 5 (Almaeneg); Diwrnod Chwaraeon Clwstwr yn ogystal â pherfformiad y Gerddorfa Clwstwr.

**Buddsoddiad Safle a TGCh**
Mae Glantaf yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad mewn Technoleg Ddigidol trwy ddarparu Chromelyfr personol i ddisgyblion. Er bod cyllid canolog ar gyfer


*Prif Swyddogion 2025*
*Dawns Ffarwel Bl 13*

y cynllun hwn wedi dod i ben yn 2024/25, ymrwymodd y Corff Llywodraethu i barhau â'r cynnig digidol hwn (gyda chefnogaeth rhieni) i ddisgyblion ar gyfer 25/26.



*Ymweliad Prif Weinidog Cymru a chyn-ddisgybl Glantaf, Eluned Morgan AS ar adeg enwi ystafell Wleidyddiaeth yn 'Ystafell Eluned'*

Mae buddsoddiad pellach ar y campws wedi cynnwys dau loches tywydd gwlyb newydd ar iard yr ysgol, ynghyd a goliau pel fasged newydd gafwyd drwy nawdd Cymdeithas Pel Fasged Cymru. Adnewyddwyd dwy ystafell ddosbarth newydd wrth weld ehangu ar y niferoedd wnaeth ymuno a ni yng Nghanolfan Ethni. Gwnaethom hefyd adnewyddu ein tiliau yn y ffreutur er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy cyflym i ddisgyblion. Rydym yn bwriadu gwella cyfleusterau'r safle ymhellach trwy adeiladu lloches ychwanegol a caban arlwyo newydd yn ystod haf 2026. Yn ystod tymor yr haf, byddwn hefyd yn adnewyddu dau floc tai bach i ddisgyblion ac i staff yr ysgol, yn ogystal a buddsoddi mewn Bws Mini newydd i'r ysgol. Byddwn yn buddsoddi dros £15,000 i adnewyddu offer Gymnasteg a Ffitrwydd yn yr Adran Addysg Gorfforol.

Heb os, datblygiad mwyaf ar y campws eleni oedd croesawu y Contractwyr Wynne er mwyn adeiladu ein Canolfan Anghenion Addysgol Arbennig newydd, a enwyd yn swyddogol eleni yn Canolfan Ethni. Mam un o ddisgyblion cyntaf yr uned oedd Ethni Jones, ac roedd hi hefyd yn ymgyrchydd brwd dros hyrwyddo addysg Gymraeg. Fel un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Bryn Taf, gweithiodd Ethni yn ddiwyd, egniol a llawen drwy gydol ei bywyd i agor llwybrau addysg Gymraeg i fwy o blant yma yn y brifddinas ac ar draws Cymru. Yn hwyrach, ymunodd a staff Glantaf fel athrawes ac roedd hi a'i gwr Michael yn ymgyrchwyr brwd a diflino dros lwyddiant ac ehangu cyfleoedd i blant drwy gyfrwng y Gymraeg. Pleser arbennig oedd croesawu mab Ethni, Garmon, ynghyd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Cyng Sarah Merry i dorri'r dywarchen mewn seremoni yn yr Hydref. Mae'r adeilad yn datblygu yn gyflym ac edrychwn ymlaen i gwblhau'r prosiect ar gyfer yr agoriad yn Ionawr 2027.

**Lles a Diogelu**

Roeddem yn falch iawn o groesawu partneriaid addysgol i Glantaf i gynnig gweithdai a sesiynau rhyngweithiol i fyfyrwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth | Bl 7 | Gweithdai cydraddoldeb |
| Brook | Bl 7 | Strategaethau ar gyfer lles digidol |
| Smashed Live | Bl 7 | Smashed |
| Brook | Bl 8 | Urddas Mislif |
| Brook | Bl 9 | Ymateb i bornograffi |
| Brook | Bl 9 | Cyflwyniad i iechyd rhywiol |
| Brook | Bl 10 & 11 | Ymchwilio hunaniaeth |
| Mewn-gymorth i ysgolion | Bl 10 | Straen arholiadau |
| Senedd | Bl 11 & 12 | Pleidleisio / dinasyddiaeth |
| Gwasanaeth Tan | Bl 12 | Diogelwch gyrru |
| Elevate | Bl 12/13 | Hyfforddiant mentoriaid cymar |
| Nyrs ysgol | Grwpiau blwyddyn | Cefnogaeth bwrpasol |
| Miri Hughes (Urdd) | Bl 7 | Clybiau amser cinio |
| | Amryw | Grŵp Balch |
| Joseff Jones | Amryw | Ymgysylltu â bechgyn |
| YMCA | Grwpiau blwyddyn | Cymorth Gofalwyr Ifanc |
| CAVDAS | Cefnogi disgyblion/teuluoedd sydd â dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol | |
| Barnardo's | Amrywiol | Gweithdai cymorth |



Cyfweliadau ar Radio Cymru adeg etholiad y Senedd

Rydym wedi elwa o hyfforddi ein myfyrwyr hŷn fel mentoriaid cymar sy'n cefnogi disgyblion sy’n teimlo bod bywyd ysgol yn anodd. Fe wnaethom barhau â'n gwaith gyda Mrs Elen Hughes fel ymarferydd iechyd meddwl yr ysgol.

Mae "*Ystafell Keri*" (ein hwb lles i fyfyrwyr), yn cynnig cymorth pwrpasol sy'n cynnwys ymyriadau grŵp fel '*Disgybl Ffrwydrol*', 'ELSA', therapi lego, *Talkabout*, *Thrive*, sy'n gysylltiedig ag Iechyd Meddwl, Therapi Celf, Byw'n Iach a Ffitrwydd yn ogystal â darpariaeth cwricwlwm amgen ac ymweliadau gan Cosmo – ein ci lles.

Mae Mrs Bethan Rees, (ein swyddog gweinyddol a chymorth i deuluoedd) wedi datblygu cysylltiadau cymunedol gwerthfawr. Mae'r rhain yn cynnwys ein mentrau cymorth fel: "siop" gwisg am ddim ar Facebook; dileu rhwystrau i deuluoedd agored i niwed; parseli bwyd; adnoddau addysgol a deunydd ysgrifennu ar gyfer disgyblion a theuluoedd PYaDd; C-Cerdyn YMCA Caerdydd (Bl.10-13) cyflenwad cyfrinachol o gondomau; cynhyrchion mislif am ddim; cefnogaeth i ofalwyr ifanc a nifer pwrpasol o ddarpariaethau ar gyfer grwpiau o ddisgyblion. Roeddem yn falch iawn o barhau â'n partneriaeth ag Eglwys Sant Teilo, gan gynnig parseli bwyd a chefnogaeth ymarferol i deuluoedd.

Rydym hefyd wedi bod yn falch iawn bod ein grŵp Balch (grŵp disgyblion LGBTQ+) dan arweiniad Miri o’r Urdd wedi cwrdd yn rheolaidd ac wedi mwynhau cymryd rhan yn nigwyddiad dathlu blynyddol *Cymru Balch* yng Nghaerdydd ym mis Mehefin.

*Diogelu:* Fe wnaethom gynnal ein Noson Wybodaeth Diogelu flynyddol i rieni mewn partneriaeth â *Everyone’s Invited.* Roedd yn gyfarfod yn ffocysu ar gyfathrebu ar-lein a pheryglon mae ein pobl ifanc yn eu wynebu drwy ddyfeisiadau digidol. Rydyn yn parhau â'n bwletinau diogelu misol i rieni, gan dynnu sylw at agwedd wahanol ar gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Yn ystod tymor yr Hydref, cwblhaodd holl ddisgyblion Glantaf holiaduron a gyfrannodd at y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN). Mae'r ymchwil genedlaethol hon yn rhoi dadansoddiad o brofiad, ymddygiad ac agweddau disgyblion ac yn cymharu ysgolion unigol â chyd-destun Cymru gyfan. Mae'r ymatebion a'r adroddiad a dderbyniwyd yn rhoi syniad da o feysydd cryfder a meysydd y bydd angen sylw arnynt, y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ein Cynllun Gwella Ysgol. Roedd yn braf nodi cynnydd yn sgoriau ymddiriedaeth disgyblion yn y cymorth sydd i’w gael o fewn yr ysgol. Mae’r holiadur yn dangos cynnydd cryf dros amser o ran agweddau at les o fewn yr ysgol, er bod meysydd datbygu hefyd yn dod i’r amlwg. Ardaloedd a amlygwyd ar gyfer ein sylw yw: magu hyder a grymuso merched yn ogystal â delio â safbwyntiau eithafol a niweidiol o ragfarn. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n cydweithwyr ym Mhlasmawr a Bro Edern i wynebu rhai o'r materion hyn gyda'n gilydd.

*Protocol Tân a Llwyrgloi*: Fe wnaethom adolygu ein protocol tân a llwyrgloi gan wneud gwellianau yn ôl yr angen.

*Ymweliadau Diogelu ac Awdit 360:* Eleni, roeddem yn falch iawn o gwblhau awdit cyflawn diogelu 360 Cyngor Sir Caerdydd sy’n weithgaredd ysgol gyfan gwerthfawr iawn i fesur darpariaeth ac effeithiolrwydd ein systemau. Bydd hyn yn digwydd yn flynyddol o hyn allan ac mae’r broses yn cynhyrchu cynllun gweithredu effeithiol i’r ysgol unigol. Cynhaliwyd ymweliad diogelu cymar rhwng BroPlasTaf ac fe wnaeth ymweliadau cyswllt ein Llywodraethwr Diogelu, rymuso ymhellach ein arbenigedd a’n darpariaeth.

*Defnydd Ffônau Symudol:* Mewn ymateb i'r twf o gamddefnyddio ffôn symudol, gan gynnwys defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol a bwlio ar-lein, fe wnaethom werthuso ein polisi ac

rydym ar fin gwneud addasiadau pellach er mwyn addysgu a diogelu disgyblion. Bydd y polisi Gat i Gat yn gosod disgwyliadau mwy eglur i blant ac yn cefnogi disgyblion i fwynhau cyfathrebu a chyswllt wyneb yn wyneb yn hytrach na syllu a chanolbwyntio ar sgrin.

**Darpariaeth Bwyd a Diod**
Eleni, penderfynodd Corff Llywodraethu Glantaf i ymgymryd a chyfrifoldeb y Gwasanaeth Arlwyo, ac i geisio gwella'r gwasanaeth drwy gyfres o fuddsoddiadau strategol, nad oedd yn digwydd dan arweiniad y Gwasanaeth Sirol. Mae Glantaf yn ffodus i elwa o dîm profiadol ac effeithiol iawn o staff arlwyo o dan arweiniad Ms Serina Shepheard a Mrs Julie Burns. Er gwaethaf maint bychan ein cegin a'n hardal fwyta, rydym wedi cynnig darpariaeth lawn i fyfyrwyr trwy gydol y flwyddyn. Mae ffreutur Glantaf *"Caffi'r Taf / Tŷ Gwydr"* yn gweini mwy o brydau poeth nag ysgolion tebyg, ac mae'r amseroedd ciwio yn cael eu rheoli'n dda. Mae'r ddarpariaeth arlwyo yn yr ysgol yn parhau i fod yn boblogaidd gyda disgyblion, gyda gwerthiant cryf o'r opsiwn 'pryd bwyd' dyddiol, am bris o £3.55. Dyfarnwyd gradd 5 i Glantaf ar gyfer safonau hylendid yn 2024 ac eto yn Tachwedd 2025. Mae gennym 3 ffynnon dŵr oer, sy'n darparu dŵr am ddim i ddisgyblion a staff, nid yw poteli plastig bellach yn cael eu gwerthu ar y safle. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r system talu heb arian parod i gael gwasanaeth effeithlon. Yn dilyn ein profiad eleni, byddwn yn ymestyn y ddarpariaeth yn Medi, i gynnwys Caban Gwasanaeth Bwyd ar yr Iard, ac yn ehangu dewis ar y fwydlen yn sgil barn disgyblion.

**Cymorth Canolfan Ethni / ADY (Atodiad B ac C)**
Gweler Atodiad B ac C am adroddiad manwl ar ein cymorth a'n gweithgarwch ADY gan Bennaeth Cynorthwyol / Arweinydd Canolfan Ethni, Mrs Bethan Davies a'n Dirprwy Bennaeth / CADY, Mrs Catrin Arnopp.

**Llais Disgybl a Prif Swyddogion**
Etholwyd aelodau Senedd yr Ysgol yn nhymor y gwanwyn ac maent wedi gallu rhoi persbectif disgybl ar faterion ysgol gyfan.

Lansiwyd ein rhaglen Mentora Cyfoedion lle mae disgyblion hŷn yn cefnogi disgyblion ym mlwyddyn 7-8 yn ystod tymor yr hydref. Cawsom ein calonogi hefyd gan y niferoedd uchel o wirfoddoli yn Bl. 12 a 13 yn ein ymyriadau llythrennedd a rhifedd. Ymrwymodd dros 100 o fyfyrwyr 6ed Dosbarth wersi rhydd i weithio un-i-un, i wella oedran darllen disgyblion, a gweithio trwy ymarferion rhifedd. Mae adborth myfyrwyr o'r sesiynau hyn wedi bod yn hynod gadarnhaol.


*Romilly, Gruff, Menna a Genevive Prif-Swyddogion 2026*

Byddwn hefyd yn canmol arweiniad a chyfraniad ein Prif Swyddogion eleni, boed hynny trwy gyfarfodydd Corff Llywodraethol neu drafodaethau anffurfiol ar ddigwyddiadau elusennol a gwelliannau ysgol. Ein diolch a'n dymuniadau gorau i Megan Jones, Ollie Weekley, Osian Looker a Libby Morgan, prif swyddogion 2025 ac rydym yn dymuno'n dda i'w holynwyr, Menna Evans, Romilly Bennett, Gruff Davies a Genevive Miles ar gyfer 2026.

**Gweithgareddau Allgyrsiol**
Un nodwedd o gymuned Glantaf yw ehangder a chyfoeth ein gwaith allgyrsiol. Mae wedi bod yn hynod galonogol gweld ehangder y gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oedd yn cynnwys:

- Ymweliad preswyl Bl11-13: Celf a Dylunio â Llundain ac ymweliad dydd i Rydychen
- Taith preswyl pêl-droed Bl. 9 i Barcelona
- Taith Hanes i'r Ffosydd Rhyfel Byd Cyntaf ac Ypres (Bl9)
- Gweithdy TGCh Cisco i ferched Bl 7

- Taith Sgïo i Zell-am-See, Awstria
- Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Rotari Bl12&13
- Ymweliad Hanes Bl13 â Phrifysgol Abertawe
- Taith preswyl Bl. 7 Llangrannog
- Taith maes Addysg Awyr Agored Bl 10
- Gŵyl Rygbi Cyffwrdd Glantaf
- Cwrs preswyl y Ganolfan i Pentre Ifan
- Cwrs preswyl Pêl-rwyd Bl 7, 8 a 10 i Liddington
- Disgo Calan Gaeaf Bl 7 GYTS



*Enillwyr y Gadair a'r Goron, Eisteddfod 2026*

- Cynhadledd Meddygaeth a Deintyddiaeth CYDAG
- Cwrs preswyl Safon Uwch Llenyddiaeth Gymraeg yng Nglanllyn / Prifysgol Aberystwyth
- Gweithdy troseddeg i fyfyrwyr Bl12/13 ym Mhrifysgol Met Caerdydd
- Ffair Nadolig Bl 10 fel rhan o Fagloriaeth Cymru
- Perfformiadau Côr Bois Glantaf ar raglen Britain's Got Talent, yn Gala Nadolig F1; cyngerddau amrywiol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, cynhadledd Estyn yn y Gyfnewidfa Lo, Cyngerdd ffarwel tim Gemau'r Gymanwlad Cymru a noson wobrwyo Radio Nation yn Neuadd y Brangwyn.
- Llwyddiant yng nghystadlaethau blynyddol Joutes Scolaires ac Anthea Bell (cystadlaethau llafar a chyfieithu Ffrangeg)
- Teithiau maes Daearyddiaeth i Margam a Glanllyn
- Cwrs preswyl grŵp Addysg Awyr Agored Bl. 9 yng Nghanolfan Storey Arms
- Ymweliad Bl 7 *Coron Gwlad* â Pharc Treftadaeth y Rhondda
- Cyngerdd Cerddorfa Clwstwr Glantaf Bl 5-13
- Cerddorfa Unedig Ysgolion Cyfrwng Cymraeg De Cymru yn Neuadd Hoddinott
- Ymweliadau Drama a Theatr amrywiol: *Romeo & Juliet*, Theatr Genedlaethol Cymru; *Playing Burton*, Matthew Rhys; *Mary Poppins*, Celfyddydau mynegiannol; *Our Town*, National Theatre of Wales; *Pride*, National Theatre; *Thespians*, Theatr Mischief.
- Alldaith Gwobr Dug Caeredin ar gyfer Bl. 9 yn Nyffryn Gwy (Efydd) ac ar gyfer Bl. 10 ar Benrhyn Gwyr (Arian)
- Coffáu Diwrnod y Cofio yn Llandaf gyda'r Senedd Ysgol
- Colège St Gilles, Nantes ar weithdai addysg gorfforol a Ffrangeg
- Gweithdai UCAS Bl12 ym Mhrifysgol Met Caerdydd
- Cystadleuaeth *Debate Mate* Bl. 9 (Saesneg)
- Digwyddiad codi arian Gŵyl Glantaf ar gyfer Eisteddfod Bro Wennynen

Roeddem yn falch iawn o groesawu ymwelwyr a sefydliadau partner i'r ysgol a oedd yn cynnwys:

- Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru ac un o griw cyntaf cyn-ddisgyblion Glantaf yn 1978.
- Yr actor a chyflwynydd Radio Cymru, Shelley Rees-Owen
- Mabon ap Gwynfor, Gweinidog Iechyd, Llywidraeth Cymru
- Lleucu Non,artist a beirniad Arddangosfa Gelf Glantaf 2026
- Aelodau o dim Rygbi Fiji
- Cynrychiolwyr o Gynhadledd Addysg Rhyngwladol, BELMAS
- Ymwelwyr o Ysgolion yn Nigeria, Lesotho a Japan
- Dros 20 o gyflogwyr fel rhan o Lansio Fforwm Busnes a Ffau'r Dreigiau yn dilyn her fusnes "Pentref Taf"
- Anna McMorrin AS
- Gyrfa Cymru a gweithdai gyrfaoedd ar gyfer pob grŵp blwyddyn
- Cyfweliadau gyrfa unigol Gyrfa Cymru gyda myfyrwyr Bl11


*Ymweliad Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru a Glantaf*

Roedd yn bleser cymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ynys Mon yn ystod Gwyliau'r Sulgwyn. Roedd myfyrwyr Glantaf yn amlwg mewn sawl cystadleuaeth, ac rydym yn diolch i'r holl ddisgyblion a gynrychiolodd yr ysgol gyda chymaint o egni a staff am eu hyfforddi a'u cefnogaeth. Roedd llwyddiannau Glantaf yn niferus wrth i fyfyrwyr ddod i'r amlwg yn y cystadlaethau ar y prif lwyfannau. Enillwyr Medalau Aur: Detholiad o Ddrama Gerdd; Côr Bechgyn Hyn; Grŵp Jazz Ensemble Hŷn; Cor SA Iau; Owen Frohawk (Unward chwythbrennau Iau) Steffan John, (Unawd Offer Taro Hyn); Ben Manville Parry (Unawd Telyn AC Unawd Guitar iau); Edryd Collins (Unawd Llinnynol Iau). Enillwyr Medalau Arian: Côr Cerdd Dant Hŷn; Cor SA Hyn; Ensemble Offerynnol Bl 7-9; Ensemble Lleisiol Bl 7-9; Parti Merched Bl 7-9; Cor Bechgyn Iau; Rhys Evans (Llefaru Iau); Tom Davies (Piano Hyn); Mari Fflur Thomas (Dawns Werin Hyn); Efydd: Côr SATB; Deuawd Offerynnol Bl 7-9; Mali Grug, (Monolog Bl7-9). Diolch i'r holl fyfyrwyr a gystadlodd gyda'r fath raen yn y gwahanol gystadlaethau – rydym mor falch o'ch perfformiadau, medal neu beidio - roedd eich perfformiadau yn ysbrydoliaeth ac yn lwyddiant aruthrol!

Fe wnaethom hefyd fwynhau dod at ein gilydd ar gyfer ein Cyngerdd Nadolig ym mis Rhagfyr yng Nghapel y Tabernacl ar yr Aes lle codwyd £1,426 ar gyfer Elusen Digartrefedd y Tabernacl, *Y Ganolfan Glyd*. Roedd safon y perfformiadau yn aruthrol a braf nodi mai dyma'r nifer mwyaf erioed o ddisgyblion a gymerodd ran yn yn ein Cyngerdd blynyddol - dyma osod y naws perffaith ar gyfer cyfnod y Nadolig.



*Casgliad tuag at Y Ganolfan Glyd*

**Eisteddfod yr Ysgol**

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol yng Ngerddi Sophia, ac roedd yn ddiwrnod llawn hiwmor ac egni. Enillodd *Dyfrig* brif darian yr Eisteddfod a chafodd *Dewi* eu coroni'n fuddugol yng nghystadleuaeth y côr, ond yr enillwyr go iawn oedd pawb a berfformiodd ar y llwyfan a mwynhaodd ddathliad o ddiwylliant Cymru. O ddatganiadau, dawns, drama, cân ac arddangosfa gymnasteg, fe wnaethom fwynhau perfformiadau cofiadwy. Llongyfarchiadau arbennig i Owen Gould (Bl. 12) ac (am yr aildro!) Erin Richards (Bl 9) ar ennill Coron yr Eisteddfod (Rhyddiaith Saesneg), a Cadi Dafydd (Bl12) a Rhys Llywelyn (Bl 8) ar ennill Cadair yr Eisteddfod (Gwobr Hŷn ac Iau). Yn olaf, diolch i arweinyddiaeth a chreadigrwydd ein Chweched Dosbarth – da iawn a *diolch* am eich cyfraniadau gwerthfawr!

**Sioe Gerdd Oli!**

Roedd ein Sioe Gerdd *OLI!*, a lwyfannwyd ym mis Tachwedd yn gynhyrchiad bywiog, hwyliog ac egnïol. Roedd perfformiadau myfyrwyr yn rhagorol ac roedd aeddfedrwydd ac egni y cast cyfan a'u hymgysylltiad â'r gynulleidfa yn amlwg. Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran mor wych, boed hynny ar y llwyfan, fel rhan o'r band neu'r grŵp goleuo a sain a'r criw cefn llwyfan, gyda chefnogaeth dda gan athrawon a staff Glantaf. Roedd yn bleser arbennig cael ail-fwynhau rhannau o'r perfformiad yn y detholiad Sioe Gerdd yn yr Eisteddfod yn Sir Fon, a chael medal aur yn goron ar y cyfan!

**Arddangosfa Gelf**

Cynhaliwyd arddangosfa boblogaidd ein gwaith Celf blynyddol, sy'n canolbwyntio ar bortffolios disgyblion o Flwyddyn 11-13 ar ddiwedd tymor yr haf. Roedd yr arddangosfa amrywiol, lliwgar ac ysgogol yn uchafbwynt arall y flwyddyn ac roedd yn bleser arbennig croesawu'r artist, Lleucu Non i Glantaf fel beirniad. Llongyfarchiadau i Emily Azzopardi, Blwyddyn 12 – ein enillydd o wobr Celf Corff Llywodraethol Glantaf!



*Enillydd Gwobr Gelf 2026 Emily Azzopardi a'r beirniad, Lleucu Non*

**Llwyddiannau Chwaraeon (gweler Atodiad D)**
Ym Medi cynhaliwyd ein Noson Wobrwyo Chwaraeon flynyddol lle roeddem wedi llongyfarch myfyrwyr gyda'n gwobrau am gyfraniad yn 2024/25:

*Tim XV Cyntaf: Pencampwyr Cymru!*



| | |
|---|---|
| Lloyd Lucas (Rygbi) | Gwobr Peter Manning |
| Mali Newis (Pêl-rwyd) | Gwobr Gaynor Jones |
| Iona Roderick (Hoci) | Gwobr Jan Robinson |
| Tom Prickett (Pel droed) | Gwobr pel-droed |
| Mabli Phillips | Personoliaeth Chwaraeon Hŷn y Flwyddyn |
| Catrin Thomas | Personoliaeth Chwaraeon Iau y Flwyddyn |
| Elen Blackmore / Macsen Martins-Hughes (Athletau) | Gwobr Dai Williams |
| Olivia Rawnsley (Chwaraeon Merched) | Gwobr Brenda Goodfellow |
| Ioan Dixon (Chwaraeon Bechgyn) | Gwobr Keri Evans |
| Megan Elin Jones (Gwobr Chwarae Teg) | Gwobr Malcolm Thomas |

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, edrychwn ymlaen at ddathlu cyflawniadau eleni yn ein Noson Wobrwyo Chwaraeon Flynyddol – y dyddiad yw: **17 Medi 2026**

O ran Gwobr Dug Caeredin, gwelwyd cynnydd rhyfeddol yn y niferoedd sydd wedi ymgymryd a'r her a hynny dan arweiniad Mr Mathew Pritchard, Anogwr Dysgu'r Chweched Dosbarth. Cwblhaodd 127 o fyfyrwyr y Wobr Efydd yr haf hwn(dros dwbwl y nifer yn 2024!), ac rydym wrth ein bodd bod 70 o fyfyrwyr eraill wedi cwblhau'r Wobr Arian. Roedd nifer o fentoriaid Chweched Dosbarth yn ffactor arwyddocaol wrth ymestyn y Wobr yng Nglantaf eleni ac y bydd nifer ohonynt yn anelu i gwblhau'r Wobr Aur.

**Gwisg ysgol**
Fe wnaethom adolygu ein darpariaeth gwisg ysgol ac atgoffwn bod yr ysgol yn parhau â'n gwasanaeth ailgylchu prysur a rhad ac am ddim sy'n cynnig gwisg o ansawdd da. I gyfrannu neu fanteisio ar y cynnig hwn, cysylltwch â'n tudalen Facebook / derbynfa. Roeddem hefyd yn hynod ddiolchgar am y cyfraniadau caredig tuag at ein cymorth Dawns Ffarwel ar gyfer Bl11 a Bl13 a alluogodd ni i gefnogi myfyrwyr i ymuno yn eu Dawns Ffarwel diwedd blwyddyn.

**Cymorth elusennol**
Rydym bob amser yn falch o'n cyfraniad i gefnogi elusennau bob blwyddyn. Er hyn, eleni cafwyd ymateb rhyfeddol o arbennig at ein ymgyrch Ras Hwyl a gafodd ei ysbrydoli gan dair merch ym Ml 7 Sofia, Mali ac Elsi. Cawsant y syniad o gynnal digwyddiad i gefnogi Ysbyty Felindre a Canolfan Maggie's ac yn dilyn cynnal gwasanaeth i bob blwyddyn a her codi arian, ymatebodd cymuned Glantaf gan godi dros £25,000 ar gyfer yr achosion da. Cafwyd dydd rhagorol gyda disgyblion yn rhedeg i gefnogi aelod o'u teulu neu ffrind sy'n wynebu heriau caled o salwch.



*Cyflwyno siec rhyfeddol o £25,000 i Ysbyty Felindre, Capten Tim Rygbi Cymru, Dewi Lake gyda Elsi, Sofia a Mali.*

Gwelsom ymateb cadarnhaol eto i'n ymgyrchoedd eleni a oedd yn cynnwys:

Taith gerdded noddedig Chweched ar gyfer Kidney Wales ac Oasis Cymru (£2,904)
Hamperi Nadolig i deuluoedd lleol
Casgliad Cyngerdd Nadolig i'r Ganolfan Glyd, Capel Tabernacl, yr Ais
Bore Coffi MacMillan
*Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth*

Ymwybyddiaeth Dydd y Llyfr; Diwrnod Rhyngwladol y Menywod; Iechyd Meddwl Dynion (Young Minds); Datliadau Blachder
Sanau Od ar gyfer *Diwrnod Rhyngwladol Syndrom Down*

**Cynllun Gwella Ysgol 2026-28**

1. **Gwella Cynnydd Disgyblion**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm, gan roi pwyslais arbennig ar ddarllen ac ar lafaredd. Ein nod oedd datblygu hyder disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn sgyrsiau anffurfiol, yn ogystal â gwella rhuglder darllen a meithrin mwynhad o ddarllen. Mae ein prosesau hunanwerthuso yn dangos bod y strategaethau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, gyda mwy o hyder wrth gyfathrebu, gwell dealltwriaeth wrth ddarllen, a mwy o ymgysylltiad â thestunau ar draws y cwricwlwm.

Parhawyd i ddatblygu ein dulliau o asesu byw drwy ganolbwyntio ar ansawdd cwestiynu mewn gwersi. Mae hyn wedi galluogi athrawon i gael dealltwriaeth ddyfnach o gynnydd disgyblion ar y pryd er mwyn galluogi addasu eu haddysgu yn briodol i ddiwallu anghenion unigolion. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn elfen allweddol o'n hymagwedd Addysgu Disgybl Ganolog, gan sicrhau bod penderfyniadau addysgu yn cael eu llywio'n gyson gan dystiolaeth o ddysgu disgyblion.



*Morio canu: Eisteddfod Ysgol 2026*

Yn ogystal, rydym wedi adolygu a datblygu elfennau o'r cwricwlwm, yn enwedig ym maes Iechyd a Lles, lle mae ein hunanwerthuso yn dangos effaith gadarnhaol ar brofiadau disgyblion, er mae dal enghreifftiau o anghysondeb i'w gwella yn 26/27. Bu gwaith sylweddol hefyd i weithredu'r newidiadau i gymwysterau TGAU, yn enwedig ym mhynciau Ton 1. Er bod y broses o gydbwyso gofynion yr asesiadau newydd yn parhau'n her, mae adrannau wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w darpariaeth, gan sicrhau bod profiad disgyblion ar draws y cwricwlwm yn cael eu hystyried.

2. **Gwella Lles Dysgwyr**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar gryfhau cysondeb ein strategaethau i wella ymddygiad cadarnhaol ar draws yr ysgol. Mae sefydlu'r Ystafell Adlewyrchu wedi bod yn llwyddiant, gan ddarparu gofod effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu hymddygiad, deall effaith eu gweithredoedd a chael cymorth i wneud dewisiadau mwy cadarnhaol yn y dyfodol. Mae ein prosesau hunanwerthuso yn dangos bod hyn wedi cyfrannu at well cysondeb yn ein dulliau o gefnogi ymddygiad a lles.

Mae'r prosiect Ymbweru Merched wedi parhau i gael effaith sylweddol. Yn ogystal â'r profiadau eithriadol a gafodd y disgyblion a fu'n rhan o'r ymweliad â Malaysia, mae effaith y prosiect wedi ymestyn ar draws yr ysgol drwy weithdai, gweithgareddau ac ymgyrchoedd sydd wedi hyrwyddo cydraddoldeb, hyder ac arweinyddiaeth ymhlith ein dysgwyr.



*Pencampwyr Pel-droed Sir dan 15*

Bu ffocws penodol hefyd ar gryfhau rôl y Tiwtor Personol fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer cefnogi lles disgyblion. Mae canlyniadau diweddar Arolwg SHRN yn dangos bod mwy o ddisgyblion yn teimlo bod aelodau o staff yn gwrando ar eu barn ac yn eu parchu, gan adlewyrchu effaith gadarnhaol y gwaith hwn ar berthnasoedd a lles o fewn y gymuned ysgol.

Yn olaf, rydym wedi parhau i roi pwyslais ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol o amgylch yr ysgol. Mae ein hunanwerthusiadau, ynghyd ag adborth arolwg Estyn, yn dangos cynnydd sylweddol yn y maes hwn. Er hynny, rydym yn cydnabod bod newid arferion ieithyddol yn broses hirdymor, a bydd datblygu hyder disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn parhau'n flaenoriaeth allweddol dros y blynyddoedd nesaf.

**3. Gwella Arweinyddiaeth**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r strwythur arweinyddiaeth dros dro wedi sicrhau parhad yn y safonau uchel a sefydlwyd dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i nifer o aelodau staff ddatblygu eu sgiliau a chymryd cyfrifoldebau arwain newydd. Cafodd y dull hwn ei ganmol yn ystod arolygiad Estyn, ac mae ei effaith wedi cael ei fonitro'n agos gan is-bwyllgor o'r Corff Llywodraethu, gan sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer atebolrwydd a datblygu arweinyddiaeth.

Bu'r ysgol hefyd yn llwyddiannus wrth weithredu rhaglen ddatblygu ar gyfer arweinwyr canol, sydd wedi cryfhau gallu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Bydd y rhaglen hon yn parhau yn ystod 2026–27 ac yn cael ei datblygu ymhellach er mwyn paratoi mwy o staff ar gyfer rolau arwain i’r dyfodol.

Parhawyd i fuddsoddi yn yr amgylchedd dysgu drwy nifer o brosiectau i wella'r campws. Mae'r rhain wedi cynnwys gosod llochesi newydd, ailbwrpasu nifer o ystafelloedd yn ofodau addysgu ar gyfer Canolfan Ethni. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2026–27 wrth i ni baratoi ar gyfer agor adeilad newydd Canolfan Ethni, a fydd yn gam pwysig yn natblygiad darpariaeth yr ysgol. Bydd gwaith gwellianau safle yn digwydd gydol y flwyddyn mewn ymateb i’r gwarged yn 25/26, sy’n deillio gan fwyaf o niferoedd disgyblion yn cynyddu a chostau staffio llai na’r rhagamcan gwreiddiol.

Mae'r ysgol bellach wedi sefydlu a rhedeg ei gwasanaeth arlwyo ei hun yn llwyddiannus, gan gryfhau rheolaeth dros ansawdd y ddarpariaeth a'r gwasanaeth i ddisgyblion. Hefyd, cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith o drosglwyddo system rheoli data'r ysgol i lwyfan newydd Arbor. Mae'r newid hwn wedi golygu addasu nifer o brosesau gweinyddol ac addysgol ar draws yr ysgol, ac er bod y mwyafrif o'r gwaith bellach wedi'i gwblhau, bydd y camau olaf o'r trosglwyddo yn cael eu gweithredu yn ystod blwyddyn academaidd 2026–27.

**I gloi,**
Ar ddiwedd y flwyddyn brysur a chynhyrchiol hon, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r plant am eu cwmni, eu hiwmor a'u cyfraniad gwerthfawr, i'r staff am eu hegni, eu creadigrwydd a'u hymrwymiad ac i chi fel rhieni a'r gymuned ehangach am eich cefnogaeth diflino i'n hysgol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi mewn partneriaeth agos yn y blynyddoedd i ddod,

Yn gywir

Matthew H T Evans
Pennaeth Gweithredol



*Gaith maes Daearyddiaeth Bl 12: Cwm Idwal*

**Aelodaeth o'r Corff Llywodraethol**

| | | Etholedig | Diwedd |
|---|---|---|---|
| **Cymuned** | | | |
| Cadeirydd | Iona Edwards | 13/05/2025 | 12/05/2029 |
| Is - gadeirydd | Tamsyn Ramasut | 01/09/2024 | 31/08/2028 |
| | Sian Smith | 11/11/2022 | 10/11/2026 |
| | Simon Williams | 18/10/2022 | 17/10/2026 |
| | Eleri Morgan | 08/07/2025 | 07/07/2029 |
| **AALL** | | | |
| | Sarah Rawnsley | 27/06/2025 | 26/06/2029 |
| | Jennifer Burke | 27/06/2025 | 26/06/2029 |
| | Ian Speakman | 30/06/2023 | 29/06/2027 |
| | Karin Phillips | 29/03/2023 | 28/03/2027 |
| | Gwyndaf Jones | 26/06/2026 | 25/06/2030 |
| **Rhiant** | | | |
| | Gareth Barham | 05/12/2022 | 04/12/2026 |
| | Angharad Naylor | 05/12/2022 | 04/12/2026 |
| Is - gadeirydd | Aled Walters | 21/11/2022 | 20/11/2026 |
| | Bethan Webber | 21/11/2022 | 20/11/2026 |
| | Natalie Drury-Styles | 30/06/2025 | 29/06/2029 |
| | Mari Williams | 30/06/2025 | 29/06/2029 |
| **Pennaeth Gweithredol** | Matthew Evans | 01/09/2020 | - |
| Pennaeth Ysgol | Dyfrig Rees | dim pleidlais | |
| **Staff Addysgu** | Sian Bradley | 12/07/2024 | 11/07/2028 |
| | Tegid Richards | 03/10/2023 | 02/10/2027 |
| **Staff cymorth** | | | |
| | Rhian Maitland | 01/10/2024 | 30/09/2028 |
| **Heb bleidlais** | | | |
| Clerc i'r Llywodraethwyr | Melanie Spearey | dim pleidlais | - |

Ein Partner Cydweithredol o Gyngor Dinas Caerdydd yw Mr Geraint Lewis.

Gallwch gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr, Mrs Iona Edwards drwy gysylltu â'r brif swyddfa ar 029 20 333090 neu drwy e-bost yn ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk



*Gwasanaethau Nadolig 2025*
*Eglwys yr Holl Saint*

**Data Presenoldeb Ysgolion 2025-26 Tymor yr Haf (01/09/25 tan 31/05/26)**
*(Ffigurau 2024/25 mewn cromfachau)*

| | Presenoldeb % 2025-26 | 2024-25 | Absenoldeb awdurdodedig % 2025-26 | Absenoldeb anawdurdodedig % 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 95.3 | (*95.3*) | 4.19 | 0.51 |
| Blwyddyn 8 | 93.98 | (*93.9*) | 5.27 | 0.76 |
| Blwyddyn 9 | 93.75 | (*93.7*) | 5.91 | 0.34 |
| Blwyddyn 10 | 93.99 | (*92.8*) | 5.30 | 0.71 |
| Blwyddyn 11 | 90.40 | (*87.0*) | 6.47 | 3.13 |
| **Cyfanswm:** | **93.62** | *(92.5)* | 5.33 | 1.05 |

Mae ein Swyddog Presenoldeb, Mrs Lisa Harrisson yn cysylltu â theuluoedd i gefnogi dysgwyr yn ôl i'r ysgol sydd wedi arwain at well presenoldeb, mae hi bellach yn cael ei chefnogi gan Ms Charlotte Hill sydd yn gweithio gyda Mrs Harrisson ar draws ysgolion y clwstwr i ymgysylltu a theuluoedd. Gyda chyfnod o'r Ap *Classcharts* yn dod i ben rydym wedi bod yn gweithio'n galed i baratoi yr Ap newydd, *Arbor*, lle bydd cyfathrebu rheolaidd gyda rhieni am bresenoldeb yn fuan. Fe wnaethom hefyd barhau â system o gyswllt diwrnod cyntaf i leihau absenoldebau anawdurdodedig. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu codau presenoldeb a phresenoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerdydd sy'n anelu at leihau absenoldebau a hyrwyddo canrannau uchel o bresenoldeb.

**Hyfforddiant Mewnol i athrawon 2025 - 26**

Cynhaliwyd 6 diwrnod HMS yn ystod 2025/26. Yn y tabl isod, rydym yn rhestru'r hyfforddiant a'r prif feysydd ffocws

| **Dyddiad** | **Thema / ffocws** | **Darparwr** |
|---|---|---|
| 1 Medi 2025 | Paratoi ysgol a Hyfforddiant Blynyddol Amddiffyn Plant<br>Cynllun Gwella Ysgol: Addysgu Disgybl Ganolog<br>Uwch Fedrau Darllen | Ysgol |
| 2 Medi 2025 | Paratoi yr ysgol a gwaith adrannol<br>Cynllun Gwella Ysgol<br>Addysgu effeithiol - gweithdai arfer dda ar Asesu Byw; Adborth a ffocws ar gynnydd disgyblion. | Ysgol |
| 1 Hydref 2025 | Hyfforddiant traws-glwstwr ar gamau cynnydd o fewn Maes Dysgu a Phrofiad<br>Gweithdai ar ddatblygu arfer dda o fewn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol<br>Gweithdai adrannol | Clwstwr Glantaf |
| 5 Ionawr 2026 | Hyfforddiant mudo systemau cyfathrebu i lwyfan Arbor<br>Hyfforddiant statudol Prevent<br>Cynllun Gwella ysgol: Adborth Ffurfiannol<br>Gwella ffocws ar lythrennedd | Ysgol |
| 27 Mawrth 2026 | Hyfforddiant staff ar gymwysterau TGAU newydd. Rhai pynciau yn derbyn cymorth arweiniad ar adnoddau ar gyfer cymwysterau newydd ar gyfer Ton 1 a Ton 2<br>Yr adrannau eraill yn gweithio fel rhan o bartneriaeth Bro PlasTaf<br>Rhannu arfer da mewn addysgu a dysgu | CBAC / CYDAG: (pob Ysgol Cyfrwng Cymraeg De Cymru) |

| | | |
|---|---|---|
| 20 Gorffennaf 2026 | Paratoi cymhwysterau newydd<br>Cynllunio addysgu a chreu adnoddau | Ysgol / BroPlasTaf |

Mae canran uchel o'n staff hefyd yn gweithio fel arholwyr ar gyfer CBAC (Corff Arholi Cymru) ac felly, maent wedi bod yn rhan o gyrsiau hyfforddi ac asesiadau ar safon TGAU, UG a Safon Uwch. Trwy'r gwaith hwn maent yn derbyn hyfforddiant sgiliau arbenigol ym maes asesu cenedlaethol ac yn aml iawn gallant rannu eu profiadau a'u harbenigedd gyda staff ehangach yr ysgol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar eu dealltwriaeth o faes asesu cenedlaethol ac felly'n cael effaith ar eu sgiliau addysgu. Gan ein bod yn deall gwerth y gwaith hwn i gymuned yr ysgol, rydym yn awyddus i gefnogi staff i ymgymryd â gwaith o'r fath lle bo hynny'n bosibl a lle nad yw'n gwrthdaro â blaenoriaethau ysgol.

**Os hoffech ymateb i'r adroddiad**
Yn dilyn canllawiau newydd Llywodraeth Cymru, nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol i rieni gyda'r Corff Llywodraethu, oni bai bod 5% neu fwy o'r rhieni yn gofyn am gyfarfod o'r fath. Mewn achos o'r fath, byddwn yn galw cyfarfod cyn gynted â phosibl ac yn rhoi gwybod i rieni am y dyddiad. Os hoffech wneud cais o'r fath, yn y lle cyntaf dylech gysylltu â'r Pennaeth, neu Gadeirydd y Llywodraethwyr.

**Cysylltwch â ni:** Gallwch gysylltu â'r ysgol drwy:

Ffôn: 029 20 333090
E-bost: ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
Gwefan: https://www.glantaf.cymru/

Os hoffech gael copi o'r calendr ysgol neu'r prosbectws diweddaraf, cysylltwch â'r Brif Swyddfa ar 029 20 333090.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn Ysgol Gyfrwng Cymraeg yng Nghyngor Dinas a Bwrdeistref Sirol Caerdydd. Mae'r cwricwlwm yn cael ei gynnig drwy'r ysgol yn gyfan gwbl yn Gymraeg yn CA3, CA4 ac yn CA5.



*Taith Celf i Orielau ac Amgueddfeydd Llundain*

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad A: | Cyrchfan ymadawyr Hydref 2025 |
| Atodiad B: | Cymorth ADY |
| Atodiad C: | Canolfan Glantaf |
| Atodiad Ch: | Dyddiadau tymhorau ysgol 2026/2027 |
| Atodiad D: | Cyflawniadau chwaraeon |
| Atodiad Dd: | Cyllideb Ysgolion: Y ffigurau ariannol terfynol ar gyfer 2025-26 |




*Llwyddiant Corau Hyn: Eisteddfod Mon 2026*



## Atodiad A: Cyrchfannau pobl sy'n gadael yr ysgol: Hydref 2025

| **Grŵp Blwyddyn Hydref 2025** | **Blwyddyn 11** | | |
|---|---|---|---|
| rhyw | Benyw | Gwryw | **Cyfanswm** |
| Categori Cyrchfan | Cyfanswm | Cyfanswm | **Cyfanswm** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - yr un ysgol | 87 | 71 | **158** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - Ysgol | 3 | 1 | **4** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - Coleg | 16 | 36 | **52** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - AU | 0 | 0 | **0** |
| Parhau mewn addysg ran-amser | 0 | 0 | **0** |
| Mynd i gyflogaeth y tu allan i WBTYP | 1 | 0 | **1** |
| Mynd i mewn i WBTYP (statws cyflogedig) | 3 | 2 | **5** |
| Mynd i mewn i WBTYP - (heb statws cyflogedig) | 2 | 0 | **2** |
| Yn gallu mynd i mewn i Emp, Ed neu WBTYP (Di-waith) | 0 | 0 | **0** |
| Methu NEU DDIM YN BAROD i fynd i mewn i Emp, Ed neu WBTYP (e.e. oherwydd salwch, dedfryd o garchar) | 0 | 1 | **1** |
| Ddim yn ymateb i ddilyn i fyny ac felly yn anhysbys | 0 | 1 | **1** |
| **Cyfanswm** | **112** | **112** | **224** |

| **Grŵp Blwyddyn Hydref 2025** | **Blwyddyn 13** | | |
|---|---|---|---|
| rhyw | Benyw | Gwryw | **Cyfanswm** |
| Categori Cyrchfan | Cyfanswm | Cyfanswm | **Cyfanswm** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - yr un ysgol | 0 | 1 | **1** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - Ysgol | 0 | 0 | **0** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - Coleg | 4 | 1 | **5** |
| Parhau mewn addysg llawn amser - AU | 46 | 52 | **98** |
| Parhau mewn addysg ran-amser | 3 | 0 | **3** |
| Mynd i gyflogaeth y tu allan i WBTYP | 5 | 2 | **7** |
| Mynd i mewn i WBTYP (statws cyflogedig) | 1 | 5 | **6** |
| Mynd i mewn i WBTYP - (heb statws cyflogedig) | 0 | 0 | **0** |
| Yn gallu mynd i mewn i Emp, Ed neu WBTYP (Di-waith) | 0 | 2 | **2** |
| Methu NEU DDIM YN BAROD i fynd i mewn i Emp, Ed neu WBTYP (e.e. oherwydd salwch, dedfryd o garchar) | 0 | 0 | **0** |
| Ddim yn ymateb i ddilyn i fyny ac felly yn anhysbys | 8 | 14 | **22** |
| I'w ddiweddaru | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **67** | **77** | **144** |



*Cor Merched Iau: Tafwyl 2026*

**Atodiad B: Adroddiad Blynyddol ADY i'r Corff Llywodraethu Mehefin 2026**

Mae niferoedd dysgwyr sydd wedi eu hadnabod gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel â welir isod.

| | CDU ysgol | CDU AALl |
|---|---|---|
| **Bl 7** | 11 | 1 |
| **Bl 8** | 6 | |
| **Bl 9** | 9 | |
| **Bl 10** | 1 | |
| **Bl 11** | 10 | 1 |
| **Cyfanswm** | **37** | **2** |
| **BL 12** | | |
| **Bl 13** | | |

**Staffio**

- Mrs Catrin Arnopp - Dirprwy Bennaeth (CADY)
- Mrs Gwenno Rowlands (Dirprwy CADY) (Athrawes arbenigol anhawterau llythrenedd) Ms Sian Muliro (Cyfnod mamolaeth)
- Mrs Lisa Marshall (CCD Hŷn Cydlynydd ac aseswr JCQ)
- Mrs Leanne Thomas (CCD Hŷn Lles)
- Mr Aaron Jones (CCD Hŷn Lles)
- Mr Huw Rees (CCD Hŷn ymyrraeth llythrennedd a rhifedd)
- 11 CCD llawn amser

**Datblygiadau ers 2025**

- Newid o fewn strwythur arwain a rheoli y ddeddf ADY o fewn yr ysgol. Mrs Catrin Arnopp gyda throsolwg dros y trefniadau ac yn arwain y CADY. CADY yn gyfrifol am staff atodol yr adran.
- Hyfforddiant CADY newydd Awdurdod Caerdydd i SMU.
- Hyfforddiant cefnogaeth lles i CCD Hŷn Lles newydd e.e Thrive/Tree of life/Ci therapi.
- Trosglwyddo gwybodaeth a manylion disgyblion ADY o classcharts i ARBOR e.e proffiliau un tudalen i adnabod anghenion disgyblion o fewn y dosbarthiadau.
- Parhau i fonitro ystafell Keri, Hafan Roger Boore – rhain wedi gwneud gwahaniaeth i'r darpariaeth lles ac ymyraethau ysgol gyfan.
- Parhau i ddatblygu ymwybyddiaeth am ddarpariaeth newro-wahaniaeth o fewn darpariaeth prif ffrwd ac i fod yn ysgol newro-wahaniaeth gyfeillgar.
- Wedi cyflwyno cynllun darllen mwy dwys i ddisgyblion sydd â thrafferthion darllen yn gyson.
- Parhau i ddatblygu y defnydd o ddarllenydd cyfrifiadurol i arholiadau blwyddyn 10 ac 11 yn defnyddio lleisiau Cymraeg. Cyflwyno'r pecyn i flwyddyn 8 fel ffordd arferol o weithio wrth sicrhau bod gan y disgyblion y teclyn pwrpasol.
- Defnyddio'r rhaglen Edukey yn fwy effeithiol ar draws yr ysgol gyfan er mwyn casglu gwybodaeth ac adborth staff ac hefyd wedi ei ddatblygu ymhellach ar draws y clwstwr i rannu gwybodaeth pontio.
- Adborth arbennig yn dilyn ymweliad Estyn Chwefror 2026 –

*Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cefnogol a pharchus â disgyblion. Mae eu hymrwymiad i wrando ar farn disgyblion a gweithredu ar faterion lles yn gryfder nodedig. Mae'r ysgol yn teilwra'r ddarpariaeth yn effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae staff yn 'Ystafell Keri', 'Hafan Roger Boore' a'r ystafell adlewyrchu yn darparu cymorth pwrpasol sy'n galluogi'r ychydig ddisgyblion sydd angen cynhaliaeth ychwanegol i ailymgysylltu â'u dysgu.*

*Mae trefniadau pontio'r ysgol yn adnabod ac yn cefnogi disgyblion sy'n cyrraedd Blwyddyn 7 â medrau darllen gwan. Defnyddir profion sylfaenol a gwybodaeth gan staff i adnabod y rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn gweithredu strategaethau i sicrhau dull cyson ar draws y clwstwr, gan ganolbwyntio ar ddefnydd priodol o iaith a geirfa bynciol. Yn ogystal, mae ymyraethau yn yr 'Hafan Roger Boore' yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen a chynyddu eu hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau darllen yn y dosbarth.*

*Mae'r ysgol yn mabwysiadu ymagwedd gynhwysol a chefnogol at ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY, gyda'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn ymddiried yn y trefniadau sydd ar waith. Maent yn cael eu hannog i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol, ac yn elwa o ystod o weithgareddau allgyrsiol, profiadau tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, cyrsiau galwedigaethol a chyfleoedd ôl-16. Mae gan y tîm ADY adnabyddiaeth dda o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Mae gan ddisgyblion ag ADY gynlluniau datblygu unigol perthnasol sy'n cael eu hadolygu'n briodol mewn cydweithrediad ag asiantaethau allanol, rhieni a disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo annibyniaeth, dycnwch a sgiliau bywyd ar gyfer disgyblion ag ADY, trwy, er enghraifft, hyfforddiant teithio, medrau cyflogadwyedd a chefnogaeth gan wasanaethau ieuenctid.*

*Mae'r ysgol yn defnyddio data ar lythrennedd, rhifedd a lles emosiynol er mwyn llywio'r ymyraethau mwyaf addas. Mae trefniadau tracio a monitro yn sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gan alluogi'r tîm i addasu cefnogaeth, yn ôl yr angen.*

**Camau nesaf**

- Newidiadau i staffio ar arweinyddiaeth yn Medi – Hydref yn dilyn penodiadau a dychwelyd o gyfnod mamolaeth
- Parhau i ddatblygu a thyfu llwybrau ymyrraeth llythrennedd a rhifedd, wedi teilwra o amgylch darpariaeth disgybl ganolog.
- Parhau i ddatblygu fel ysgol newro-wahanol gyfeillgar ac i weithio tuag at y wobr Arian Dyslecsia.
- Parhau i ddefnyddio a datblygu system o fonitro ac asesu disgyblion sydd angen eu targedu drwy system Edukey yn fwy effeithlon. Efallai angen newid oherwydd ARBOR.
- Parhau i weithio gyda disgyblion bregus (ABSA) sydd yn cael trafferth mynychu ysgol – trefnu sesiynau ac ymyraethau ac ati iddynt.
- Arbrofi gyda system 'speech to text' i'w ddefnyddio yn y Gymraeg o fewn arholiadau.

**Atodiad C: Adroddiad Blynyddol Canolfan Ethni (Canolfan Adnoddau Arbenigol Glantaf) i'r Corff Llywodraethol (Mehefin 2026)**

Dyma'r niferoedd o ddysgwyr sydd yn derbyn cefnogaeth yng Nghanolfan Ethni, a'r niferoedd arfaethedig am y flwyddyn nesaf fel a ganlyn:

| | 2024-25 | 2025-6 | 2026-27 |
|---|---|---|---|
| **Bl 7** | 10 | 10 | 12 |
| **Bl 8** | 7 | 10 | 11 |
| **Bl 9** | 2 | 7 | 10 |
| **Bl 10** | 2 | 2 | 7 |
| **Bl 11** | 5 | 2 | 2 |
| **Bl 12** | 2 | 5 | 4 |
| **Bl 13** | 2 | 1 | 3 |
| **Bl 14** | 0 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | 30 | 38 | 50 |

**Staffio**

- Mrs Bethan Davies (Pennaeth Cynorthwyol / Arweinydd y Ganolfan)
- Mrs Mari Jones; Miss Eleri David; Miss Nia Wilson; Mrs Lucy Rolfe (athrawon arbenigol))
- Mrs Gwenllian Mitchell (Athrawes Cynllun Pontio LlC)
- Miss Sophia Mico (Uwch-gymhorthydd y Ganolfan)
- Miss Caitlin Turner; Mr Huw Pritchard; Mrs Carolyn Ford (Uwch CCD)
- Mr Hefin Karadog; Miss Sarah L Jones; Mrs Kirsty Morgan; Miss Seren Bean; Mr Greg Evans; Mr Elis Evans; Miss Rachel Thomas Evans; Miss Ffion Allery; Mr Bryn Wilson; Mr Rhydian Prosser; Mr Kamron Abdo; Mr Gruff Williams.



**Datblygiadau ers 2024 – 25**

- Canolfan Ethni newydd wedi dechrau cael ei adeiladu
- Dosbarth newydd wedi ei greu yn lle cegin Canolfan Ethni yn barod ar gyfer dosbarth ychwanegol yn mis Medi 2026
- Cwricwlwm 6ed dosbarth yn cael ei lunio a'i ychwanegu ato e.e cymwysterau ASDAN newydd
- Gwethdrefnau monitro Canolfan Ethni wedi eu mireinio ar gyfer y disgyblion e.e creu holiadur 'Llais y disgybl' sy'n gynhwysol
- Sefydlu Cyngor Canolfan Ethni gyda chynrychiolaeth o bob dosbarth
- Rôl Dirprwy Canolfan Ethni wedi ei benodi i ddechrau yn mis Medi 2026
- Defnyddio amser y Seicolegydd Addysg i gomisiynu gwaith ymchwil gan Brifysgol Caerdydd i 'Sut mae ysgolion yn cynnal disgyblion ADY drwy gyfrwng y Gymraeg?'

**Cyfleoedd Cyfoethogi**

- Menter busnes newydd wedi cychwyn i Flynyddoedd 9-11 yn creu 'Bath Bombs' – disgyblion wedi gwneud elw yn barod!
- Cyrsiau newydd wedi eu hastudio gan y 6ed dosbarth megis 'Symud a Chario' a 'Ymdrin gyda alergeddau' wrth iddynt baratoi ar gyfer y byd gwaith
- Disgyblion Blwyddyn 8 a 9 wedi ennill yr UCAN Arts Award wrth greu podlediad

- Gwobr Dug Caeredin – Cyfle i ddisgyblion Blynyddoedd 9 ac uwch yn Nghanolfan Ethni i geisio am y wobr efydd Dug Caeredin.
- Disgyblion Bl 10 – 12 wedi mynychu Cynhadledd Dechnoleg Cymru yng Nghasnewydd.
- Aeth disgyblion Bl 9-12 i ymweld a stiwdio Casualty lawr yn y Bae a daeth Steve Swindon o TAPE Cerddoriaeth a Ffilm i wneud gweithdy gyda nhw a chreu sgript gomedi 'The Revenge Of The Sausage Roll"
- Ymweliad gan Andrew Milton o Hangry Animals i wneud gweithdy rhaglen Scratch i Bl 8 a 9.
- Llu o ymweliadau i lefydd yn gysylltiedig gyda'n themâu e.e Gwlypdiroedd Llanelli a Casnewydd
- 6ed Canolfan Ethni wedi cael profiad gwaith yn Caffi Lew, Ysgol Melin Gruffydd, Hapus Wales a'r adran Reprograffeg yn yr ysgol.
- Cystadlu yn nhwrnamaint pêl fasged NBA ADY Cymru yn Aberystwyth

**Camau Nesaf**

- Parhau i gynnal a mynychu cyfarfodydd cyson gyda penseiri ar gyfer yr adeilad newydd. Symud i'r adeilad newydd yn Ionawr 2027
- Parhau i ddatblygu diwylliant Gymreig, annog y disgyblion i siarad Cymraeg drwy wobrywo, nodi a rhoi ymyrraethau mewn lle
- Sicrhau cysondeb Dysgu ac Addysgu Canolfan Ethni wrth i'r niferoedd gynyddu.
- Creu gweledigaeth digidol Canolfan Ethni a sicrhau fod gan bawb fynediad i'r dechnoleg gywir ar gyfer eu hanghenion.
- Egluro cymwysterau mewn ffyrdd mwy gweledol
- Trefnu taith tramor cyntaf Canolfan Ethni i ddisgyblion blynyddoedd 9 a 10 i Paris.
- Sefydlu Caffi Addysgu a Gweithredol fydd yn gynhwysol i blant y Ganolfan.







## Atodiad Ch: Tymhorau a Gwyliau Ysgol Blwyddyn Academaidd 2026/2027

| Dyddiad | Tymor yn dechrau | Gwyliau Hanner Tymor | | Diwedd tymor | Dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cychwyn | diwedd | | |
| Hydref 2026 | 1 Medi 2026 | 26 Hydref | 30 Hydref | 18 Rhagfyr 2026 | **75** |
| Gwanwyn 2027 | 4 Ionawr 2027 | 8 Chwefror | 12 Chwefror | 19 Mawrth 2027 | **65** |
| Haf 2027 | 5 Ebrill 2027 | 31 Mai | 4 Mehefin | 20 Gorffennaf 2027 | **55** |
| **Cyfanswm:** | | | | | **195** |

Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar gyfer **HMS** am **6 diwrnod** rhwng dydd Mawrth 1 Medi 2026 a 20 Gorffennaf 2027. Mae'r dyddiadau hyn wedi'u rhestru isod:

**Diwrnodau HMS 2026/27**

01/09/26
02/09/26
07/10/26
04/01/27
15/02/27
09/04/27

**Gwyliau Banc**

Dydd Gwener y Groglith, 26 Ebrill 2027
Dydd Llun y Pasg, 29 Ebrill 2027
Dydd Mai, 3 Mai 2027
Gŵyl Banc y Gwanwyn, 31 Mai 2027

Mae copi o galendr yr ysgol ar gael i rieni yn flynyddol o fis Medi neu drwy brif swyddfa'r ysgol ar 029 20 489 445



*Dydd olaf Bl 11 … tan mis Medi!*

**Atodiad D: Llwyddiant a chynrychiolaeth chwaraeon**

Mae wedi bod yn bleser gweld chwaraeon tîm yn blodeuo ac maen nhw wedi cael tymor hynod lwyddiannus o chwaraeon cystadleuol fel y mae'r tabl isod yn dangos (nid mewn unrhyw drefn benodol!)

| **Camp** | **Ystod oedran** **Merched (M); Bechgyn (B)** | **Teitl** |
|---|---|---|
| Pêl-droed | Bl. 7 (B) | Pencampwyr Cwpan Cymru |
| | Bl. 9 (M) | Aur, Caerdydd a'r Fro |
| | Dan 16 (M) | Arian, Cwpan Caerdydd |
| | 8A (M) | Arian, Cwpan Caerdydd |
| | 8B (M) | Aur, Caerdydd a'r Fro |
| Pêl - rwyd | Bl. 9 (M) | Efydd, Caerdydd a'r Fro |
| | Bl.10 (M) | Arian, Caerdydd a'r Fro |
| | Bl.11 (M) | Pencampwyr Caerdydd a'r Fro |
| | Dan 18 (M) | Efydd, Caerdydd a'r Fro |
| | Bl7-13 | Pencampwyr 'B' y Sir |
| | Dan 16 | Ennill 'Plat' yr URDD |
| Pêl-fasged | Dan 15 (M) | Pencampwyr, Caerdydd a'r Fro<br>Pencampwyr, De Cymru |
| | Dan 13 (B) | Pencampwyr Jnr NBA |
| Rygbi'r Undeb | Dan 14 (M) | Arian, Rhanbarth y Gleision |
| | Bl. 7 (B) | Pencampwyr, Cwpan Sir<br>Enillwyr, Cwpan Mr Malcolm Thomas,<br>Arian Urdd 7 yr ochr |
| | Bl. 8 (B) | Pencampwyr, Cwpan y Sir<br>Arian Urdd 7 yr ochr |
| | Bl. 9 (B) | Pencampwyr Cymru,<br>Pencampwyr URDD 7 bob ochr,<br>Pencampwyr Cwpan Ysgolion Prydain |
| | Bl. 10 (B) | Pencampwyr King's Worcester 7's,<br>Rownd derfynol cwpan Caerdydd |
| | XV 1af (B) | Pencampwyr, Ysgolion a Cholegau Cynghrair Genedlaethol<br>Pencampwyr, Cwpan Cenedlaethol |
| Cynghrair Rygbi | Bl. 7 (B) | Pencampwyr, Cwpan Cymru |
| | Bl. 8 (B) | Pencampwyr, Cwpan Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Bl. 9 (B) | Pencampwyr, Cwpan Cymru |
| | Bl. 9 (B) | |
| Gymnasteg | dan 13 (Cymysg) | Pencampwyr Milano Cymru<br>Efydd Llawr a Llofnaid Cymru<br>Arian Milano Prydain |
| | dan 19 (B) | Pencampwyr Acro Prydain Bechgyn |
| | Dan 19 (Cymysg) | Pencampwyr, Milano Cymru<br>Pencampwyr Milano Prydain<br>Pencampwyr, ACRO Cymru<br>Pencampwyr, Llawr a Llofnaid Prydain<br>Pencampwyr Acro Prydain Cymysg |
| | Dan 16 (Cymysg) | Arian, Milano Cymru |
| Hoci | Bl. 7 (B) | Arian Cwpan Cymru |
| | Bl. 9 (B) | Pencampwyr De Cymru,<br>Pencampwyr Cymru |
| | Bl. 11 (B) | Arian Cwpan Cymru |
| | Bl 10 (M) | Pencampwyr Caerdydd ar Fro |
| Traws Gwlad | Bl. 7 (B) | Pencampwyr, Cynghrair Caerdydd a'r Fro<br>Enillwyr Pencampwriaeth, Caerdydd a'r Fro |
| | Bl. 7 (M) | Pencampwyr Cynghrair Caerdydd a'r Fro<br>Pencampwyr, Pencampwriaeth Caerdydd a'r Fro |
| | Bl7 a 8 (B) | Pencampwyr Cymru |
| | Bl. 8 a 9 (B) | Pencampwyr, Cynghrair Caerdydd a'r Fro<br>Enillwyr, Pencampwriaeth Caerdydd a'r Fro |
| | Bl. 8 a 9 (M) | Arian, Cynghrair Caerdydd a'r Fro<br>Arian, Pencampwriaeth Caerdydd a'r Fro |
| | Bl 9 -10 (M) | Pencampwyr Cymru |
| | Bl9- 10 (B) | Pencampwyr Cymru |
| | Bl. 10-13 (M) | Pencampwyr, Cynghrair Caerdydd a'r Fro |
| | Bl. 10-13 (B) | Arian, Pencampwriaeth Caerdydd a'r Fro |
| | 11-13 (M) | Pencampwyr, Ysgolion Cymru |
| Athletau | dan 14 (M) | Pencampwyr, Caerdydd a'r Fro |
| | Dan 16 (M) | Pencampwyr, Caerdydd a'r Fro |
| Criced | Bl. 8 (B) | Pencampwyr, Ysgolion De Cymru, |

Mae'r tabl hwn yn dangos ehangder a dyfnder talent chwaraeon yng Nglantaf, ac ymroddiad rhyfeddol tîm o athrawon a hyfforddwyr. Llongyfarchiadau i holl aelodau'r tîm ar rhestr mor ganmoladwy.


*Pencampwyr Cwpan Cymru: XV Cyntaf!*

A gawn ni longyfarch myfyrwyr a enillodd anrhydeddau cenedlaethol neu ranbarthol yn ystod y flwyddyn:

Maia Griffiths, Owain Griffiths, Rhys Llywelyn, Aneira Gwynfil, Mason Harvey (Gymnasteg);
Gwenllian Ap Sion, Elin Williams, Lara Osborne, Elin Griffiths, Winnie Lambert, Nia Young, Rhodri Pugh, Felix Box, Deiniol Gunningham, Evan Roach, Eli Jones, Frank Husband, Jack Jones, Danny Davies (Hoci);
Elgan Williams, Lewis Bonas, Aron Jones, Huw Mander (Criced)
Alara Mustafa , Elen Twigg, Loti Rhys, Gwen Amos, Catrin Matthews, Mali Grace, Izzy Fox, Gwen Williams, Rosie Todd, Izzy England, Luca Dauncey, Freddy Evans, Huw Evans, Caio Thaoms, Ben Parker Gruff Ciaburro, Will White, Leo Beckley, Max Coslett, Rhys Gruffydd, Jac Witchell, Harry Rummings, Caio Evans, Elffin Bryant ac Elin Thomas (Pêl-droed);
Elin Matthews, Rhiannon Derrick, Rebeca Derrick, Erin Huxtable, Alara Mustafa, Mari George, Chloe Kingman, Isaac Hurley, Caio Thomas, Sion Mitchell, Tomi Wikcs, Leo Beckley, Zac Munn, Farley Prtichard, Osian Phillips, Leo Pill, Tomos Williams (Traws Gwlad)
Libby Morgan, Ruth Petley, Ffion Leach, Elin Griffiths, Greta Walters, Maia Griffiths, Romilly Bennett, Isla Collis, Mabli Ramasut, Maia Bradbury, Seren Pearce, Emily Davies (Pêl-rwyd);
Jahvanni Benskin, Iolo Rhys (Pêl-fasged);
Elin Mathews, Catrin Matthews, Amy Ford, Amara-Chukwu Herbert, Cadi Emmerson, Mai Pritchard, Seren Pitt, Osian Codd, Ethan Roberts-Jones, Zac Munn, Eli Jones, Osian Fitzgerald (Athletau Dan Do)
Elinor Roberts, Seren Pitt, Elen Blackmore, Zack Munn, Osian Codd, Macsen Martins Hughes, Efanysien Oldridge (Athletau)
Alfie Prygodwicz, Tom Howe, Will Adams, Joseff Fernadez-Arias, Mason Daniels, Harry Kinsey, Megan Jones, Efan Jenkins, Gruff Laugharne, Issac Jones, Elgan Williams, Evan Jones, Bailey Cutts, Finn Evans, Trystan Coates, Gruff Dafydd, Gwion Pugh, Mered Ifan, Benn Bubbbins, Brychan Ap Gareth (Rygbi)
Gwen Evans (Nofio Cymru)
Mabli Phillips, Eira Lewis Hughes (Beicio);
Elin Matthews, Hedd Griffiths (Triathlon)
Ffion Evans, Nye Evans (Tenis Bwrdd)
Grace Louca-Jones (Rygbi Cyffwrdd).

Rydym bob amser yn falch iawn o glywed am lwyddiant a chynnydd talentog ein disgyblion, felly parhewch i rannu eich llwyddiannau gyda ni fel ysgol a'n hymddiheuriadau os oes rhai disgyblion ar goll o'r rhestr uchod.


*Tim Athletau Glantaf: Pencampwyr Sir dan 16*

## Atodiad Dd: Cyllideb Ysgol 2025-26

| Cyngor Sir Caerdydd<br>YSGOL GYFUN GLANTAF<br>2025-26<br>Cyllideb a Gymeradwywyd gan Lywodraethwyr / Alldro Gwariant | Cyllideb a Gymeradwywyd gan Lywodraethwyr £'s | Alldro Gwariant £'s |
|---|---|---|
| GWEITHWYR | | |
| Staff Addysgu Llawn Amser | 6678290 | 6638964 |
| Cyflenwi Ysgol Tymor Byr | | 5747 |
| Athrawon Llawn Amser - Anghenion Arbennig (Uned) | 315347 | 317597 |
| Athrawon Llawn Amser - Anghenion Arbennig | 157865 | 147099 |
| Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor | 17019 | 16083 |
| Cynorthwywyr Addysgu | 543536 | 449059 |
| Cynorthwywyr Addysgu - Disgyblion â Datganiad | 354197 | 363776 |
| Technegwyr | 197808 | 180171 |
| Goruchwylwyr canol dydd | 28092 | 32394 |
| Swyddogion Presenoldeb | 50668 | 40206 |
| Staff Gweinyddol | 338157 | 336542 |
| Gofalwyr | 140654 | 145942 |
| Arlwyo | 143642 | 126865 |
| Staff Asiantaeth - Addysgu | 150000 | 190053 |
| Costau Staff Eraill | 74725 | 71887 |
| Cyfanswm Costau Staff | 9190000 | 9062384 |
| | | |
| COSTAU ADEILADAU | | |
| Mân Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw cynnwys tiroedd | 142814 | 159331 |
| Costau Ynni | 208900 | 153876 |
| Cyfraddau (Wedi'u Clustnodi) | 172815 | 172816 |
| Taliadau Dŵr | 25381 | 35142 |
| Glanhau a Domestig (gan gynnwys Deiliad Allwedd) | 251577 | 249621 |
| Cyfanswm Costau Eiddo | 801487 | 770786 |
| | | |
| CLUDIANT A GWASANAETHAU | | |
| Costau Cysylltiedig â Chludiant | 23500 | 15294 |
| Costau Cludiant | 23500 | 15294 |
| | | |
| CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | | |

| | | |
|---|---|---|
| Dodrefn | 10000 | 4962 |
| Deunyddiau Addysgu | 140000 | 182858 |
| 14-19 | 110000 | 90924 |
| Gemau a Gweithgareddau | 80000 | 64890 |
| Yswiriant | 1000 | - |
| Costau Arlwyo | 186237 | 217883 |
| Deunydd Ysgrifennu a Threuliau Cyffredinol | 60000 | 38664 |
| Ffioedd Arholiadau | 225000 | 213793 |
| Cyfathrebu | 14000 | 9567 |
| Gwasanaethau Cyfrifiadurol | 114000 | 86226 |
| Costau Cyffredinol | 5000 | 6323 |
| Costau Clercod i Lywodraethwyr | 3038 | 6863 |
| Costau eraill | | 297 |
| | | |
| Hyfforddiant cartref / ysbyty | 20000 | 11242 |
| | | |
| Unedau Gwasanaeth | 61082 | 28804 |
| Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau | 1029357 | 963297 |
| Gwariant gross | 11044344 | 10811761 |
| **LLAI O INCWM:** | | |
| Incwm Ysgol | -629351 | -749283 |
| Incwm AALl | -968197 | -1347949 |
| MSF | | 150 |
| Llog Ysgol/Benthyciad/Buddsoddiad | -100 | -162 |
| Tynnu'n Ôl | | |
| Additional Funds - CNE | | |
| **INCWM GROS** | -1597648 | -2097244 |
| **GWARIANT NET** | 9446696 | 8714517 |
| Cronfeydd heb eu Dyrannu - Gwarged/(Diffyg) | 42788 | 774967 |
| **CYLLIDEB FFORMIWLA** | 9489484 | 9489484 |



*Taith Bl 9 Hanes i Ypres a Belg*